# Gwybodaeth BWYSIG ynglŷn â'ch achos
# Darllenwch hwn **cyn cwblhau eich cais**

**Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi fynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM) cyn gwneud cais i'r llys teulu i ddatrys anghydfod am eich plant neu arian.** Mae hyn yn golygu, cyn cyflwyno'ch cais i'r llys, bod yn rhaid i chi gwrdd â chyfryngwr teuluol awdurdodedig i gael gwybod am gyfryngu a'r opsiynau gwahanol eraill ar gyfer datrys eich anghydfod(au) y tu allan i'r llys. Gelwir defnyddio trydydd parti i helpu i ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys yn ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys, neu NCDR.

Dan rai amgylchiadau, e.e. achos sy'n ymwneud â cham-drin domestig, efallai na fydd angen i chi fynychu MIAM. Os credwch nad oes angen i chi fynychu MIAM, gallwch hawlio esemptiad. I gael rhagor o wybodaeth am yr esemptiadau MIAM dilys, gweler adran 3 (tudalennau 5-7). **Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi eich cais ar gyfer rhai esemptiadau MIAM. Lle bo angen tystiolaeth, rhaid darparu hyn gyda'ch cais.** Wrth brosesu eich cais, bydd y llys yn adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd gennych i sicrhau bod esemptiad MIAM wedi'i hawlio'n ddilys.

**Pwy yw darparwyr MIAM a beth maent yn ei wneud?**
Mae darparwyr MIAM yn gyfryngwyr teuluol awdurdodedig. Gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi yw cyfryngwyr, sy'n gallu eich helpu chi a'r unigolyn arall i ddarganfod a oes modd i chi ddod i gytundeb ar faterion megis trefniadau ar gyfer plant, trefniadau ariannol a rhannu eiddo heb orfod mynd i'r llys.

**Sut gall cyfryngu a mathau eraill o ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys helpu?**
Mae cyfryngu, a mathau eraill o ddatrys anghydfodau tu allan i'r llys megis cyflafareddu, gwerthusiad gan drydydd parti niwtral (fel proses Datrys Anghydfodau Ariannol preifat) a chyfraith gydweithredol, yn rhoi mwy o reolaeth i chi dros yr hyn sy'n digwydd, ac fel arfer mae'n llai o straen a gall fod yn rhatach na mynd i'r llys. Hefyd, gall fod yn gyflymach a pheri llai o ofid i chi a'ch plant. Yn y MIAM, cewch wybod am gyfryngu, a mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys, i'ch helpu i geisio datrys eich anghydfod y tu allan i'r llys teulu, ac am wasanaethau a all roi cymorth a chefnogaeth i chi.

**Ble alla'i ddod o hyd i gyfryngwr neu ragor o wybodaeth?**
Gallwch chwilio am gyfryngwyr sy'n darparu gwasanaeth MIAM a chael rhagor o wybodaeth am gyfryngu, datrys anghydfodau tu allan i'r llys a ffynonellau cymorth eraill drwy ddefnyddio'r wefan hon: www.familymediationcouncil.org.uk/. Hefyd, gallwch sganio'r cod QR hwn gyda'ch ffôn clyfar.

**A oes rhaid i mi dalu am y MIAM?**
Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl dalu am y MIAM. Mae'r cyfraddau'n amrywio fesul darparwr, ac felly cysylltwch â chyfryngwyr unigol i ofyn am yr wybodaeth hon. Fodd bynnag, efallai y byddwch chi neu'r unigolyn arall sy'n rhan o'r anghydfod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, sy'n golygu bod y MIAM yn rhad ac am ddim. I ganfod a ydych yn gymwys ai peidio, ewch i: www.gov.uk/check-legal-aid.

## Darllenwch y datganiadau isod a rhowch eich llofnod yn y blwch i gadarnhau eich bod yn deall

1. Rwy'n deall, os na fyddaf yn mynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM), **ni fydd** y llys yn gallu prosesu fy nghais oni bai fy mod yn hawlio esemptiad MIAM dilys.
2. Rwy'n deall, os wyf yn hawlio esemptiad, lle bo angen, bod yn rhaid i mi ddarparu tystiolaeth i gefnogi hyn i'r llys ynghyd â'r ffurflen gais hon.
3. Rwy'n deall os na fyddaf yn darparu'r dystiolaeth hon, neu os bydd y llys yn penderfynu na hawliwyd esemptiad MIAM mewn modd dilys, efallai y bydd y llys yn penderfynu peidio â phrosesu fy nghais **hyd nes** y byddaf wedi mynychu MIAM i drafod gwahanol opsiynau datrys anghydfodau tu allan i'r llys.
4. Deallaf y gall y barnwr oedi'r achos ar unrhyw adeg os yw'n ystyried bod ceisio datrys yr anghydfod y tu allan i'r llys yn ddiogel ac yn briodol.

Llofnod      Dyddiad D D / M M / B B B B

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod pob ceisydd yn ymwybodol o'r broses hon, a gofynnwn i chi **ddychwelyd y dudalen hon gyda'ch cais.** Gallwch gyflwyno'ch cais heb y dudalen hon, ac ni effeithir ar eich cais os na fyddwch yn ei llofnodi a'i dychwelyd.

C100

# Cais o dan Adran 8 Deddf Plant 1989 am orchymyn trefniadau plant, camau gwaharddedig, gorchymyn mater penodol neu i amrywio neu ddiddymu neu ofyn am ganiatâd i wneud gorchymyn adran 8

| **I'w lenwi gan y llys** | |
|---|---|
| Yn y llys teulu yn eistedd yn: | |
| Rhif yr achos | Dyddiad cychwyn |

**Cyfeirnod Help i Dalu Ffioedd** (os yn berthnasol) H W F - ☐☐☐ - ☐☐☐

Cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch daflen 'CB1 – Gwneud cais – Plant a'r Llys Teulu' a thaflen CB7 – Canllawiau i rieni sydd wedi gwahanu: plant a'r llys teulu'. **Mae'r dogfennau hyn a ffurflenni a thaflenni eraill ar gael gan eich llys lleol neu ar-lein yn https://www.gov.uk/government/collections/court-and-tribunal-forms**

| Enw(au) cyntaf y ceisydd/ceiswyr | Cyfenw'r ceisydd/ceiswyr |
|---|---|
| | |
| | |

| Enw(au) cyntaf yr atebydd/atebwyr | Cyfenw'r atebydd/atebwyr |
|---|---|
| | |
| | |

## Natur y cais

Am ba orchymyn/orchmynion ydych yn gwneud cais?

☐ Gorchymyn Trefniadau Plant

☐ Gorchymyn Camau Gwaharddedig

☐ Gorchymyn Materion Penodol

*Rhowch fanylion am natur y gorchymyn yr ydych yn ei geisio. Er enghraifft, gorchymyn ynglŷn â gyda phwy y dylai plentyn fyw, neu ba mor aml y dylai dreulio amser gyda'r ceisydd ac am ba hyd.*

## Pryderon ynglŷn â risg o niwed

A ydych yn honni bod y plentyn/plant a enwir yn Adran 1 y ffurflen hon wedi profi, neu mewn risg o brofi, niwed o ganlyniad i unrhyw un o'r canlynol gan unrhyw unigolyn sydd wedi cael cyswllt â'r plentyn?

| | | |
|---|---|---|
| unrhyw fath o gam-drin domestig | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| herwgydio plant | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| cam-drin plant | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| unrhyw bryderon eraill ynghylch diogelwch neu les | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |

Os bu i chi ateb Ydw i unrhyw un o'r uchod, **mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen C1A** (Ffurflen wybodaeth ategol) **a'i ffeilio gyda'r ffurflen C100 hon.**

## Gwybodaeth ychwanegol angenrheidiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| A ydych yn gofyn am ganiatâd i wneud y cais hwn, pan fo angen hynny? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw | Os Ydw, dylech lenwi adran 5a |
| A oes angen gwrandawiad brys neu wrandawiad heb rybydd? | ☐ Oes | ☐ Nac oes | Os Oes, dylech lenwi adran 6a neu 6b |
| A yw'r plentyn/plant yn destun achosion blaenorol neu gyfredol? | ☐ Ydynt | ☐ Nac ydynt | Os Ydyn, dylech lenwi adran 7 |
| A ydych yn gwneud cais am orchymyn i ffurfioli trefniant (gorchymyn cydsynio)? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw | Os Ydw, **atodwch y gorchymyn drafft i'r ffurflen hon** |
| A yw hwn yn achos ag elfen ryngwladol neu ffactorau sy'n effeithio ar gapasiti cyfreitha? | ☐ Ydy | ☐ Nac ydy | Os Ydy, dylech lenwi adran 8 neu 9 |
| A fydd y plentyn neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r cais hwn yn defnyddio Cymraeg llafar neu ysgrifenedig yn ystod yr achos? | ☐ Bydd | ☐ Na fydd | Os Bydd, dylech lenwi adran 10 |


© Hawlfraint y Goron 2024

**Canllawiau ychwanegol**

- I gael canllaw ar lenwi'r ffurflen hon, cyfeiriwch at y Nodiadau Canllaw ar dudalennau 26–29.
- Cwblhewch y Rhestr Wirio ar ddiwedd y ffurflen, ar dudalen 24.
- Gall peidio ag ateb pob cwestiwn neu nodi nad yw'n berthnasol olygu bod yr achos yn cael ei oedi oherwydd y bydd rhaid i'r llys ofyn i chi ddarparu'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen.
- Os nad oes digon o le, atodwch ddalenni ar wahân, gan nodi'n glir manylion y plant, y partïon, y cwestiwn a rhif y dudalen y maent yn cyfeirio atynt.
- Bydd Cafcass Cymru/Cafcass yn gwneud gwiriadau y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol. Gweler Adran J o daflen CB1 am ragor o wybodaeth am Cafcass Cymru a Cafcass.

## 1. Y Plentyn/Plant

### Crynodeb o fanylion y plentyn/plant

Rhestrwch enw(au) y plentyn/plant a'r math o orchymyn/orchmynion yr ydych yn gwneud cais amdano/amdanynt, gan ddechrau gyda'r plentyn hynaf. Er mwyn deall pa orchymyn i wneud cais amdano, darllenwch lyfryn CB1 Adran D.

| **Plentyn 1 -** Enw(au) cyntaf | Cyfenw | Dyddiad geni |
|---|---|---|
| | | ☐ Ddim yn gwybod |
| Rhyw | Gorchymyn/gorchmynion y gwneir cais amdano/amdanynt | |
| ☐ Benyw ☐ Gwryw | | |
| Perthynas y ceisydd/ceiswyr â'r plentyn | | Perthynas yr atebydd/atebwyr â'r plentyn |
| | | |

| **Plentyn 2 -** Enw(au) cyntaf | Cyfenw | Dyddiad geni |
|---|---|---|
| | | ☐ Ddim yn gwybod |
| Rhyw | Gorchymyn/gorchmynion y gwneir cais amdano/amdanynt | |
| ☐ Benyw ☐ Gwryw | | |
| Perthynas y ceisydd/ceiswyr â'r plentyn | | Perthynas yr atebydd/atebwyr â'r plentyn |
| | | |

| **Plentyn 3 -** Enw(au) cyntaf | Cyfenw | Dyddiad geni |
|---|---|---|
| | | ☐ Ddim yn gwybod |
| Rhyw | Gorchymyn/gorchmynion y gwneir cais amdano/amdanynt | |
| ☐ Benyw ☐ Gwryw | | |
| Perthynas y ceisydd/ceiswyr â'r plentyn | | Perthynas yr atebydd/atebwyr â'r plentyn |
| | | |

| **Plentyn 4 -** Enw(au) cyntaf | Cyfenw | Dyddiad geni |
|---|---|---|
| | | ☐ Ddim yn gwybod |
| Rhyw | Gorchymyn/gorchmynion y gwneir cais amdano/amdanynt | |
| ☐ Benyw ☐ Gwryw | | |
| Perthynas y ceisydd/ceiswyr â'r plentyn | | Perthynas yr atebydd/atebwyr â'r plentyn |
| | | |

**1a.** A yw gwasanaethau plant yr awdurdod lleol yn gyfarwydd ag unrhyw un o'r plant?

☐ Ydynt ☐ Nac ydynt ☐ Ddim yn gwybod

Os ydynt, nodwch pa blentyn ac enw'r awdurdod lleol a'r gweithiwr cymdeithasol (os yn hysbys).

**1b.** A oes gan unrhyw un o'r plant gynllun amddiffyn plentyn?

☐ Oes ☐ Nac oes ☐ Ddim yn gwybod

**1c.** A yw'r holl blant yn rhannu'r un rhieni?

☐ Ydynt ☐ Nac ydynt

Os Ydynt, beth yw enwau'r rhieni?

Os Nac ydynt, rhowch fanylion pob rhiant a'u plant sy'n gysylltiedig â'r cais hwn.

Nodwch bawb sydd â chyfrifoldeb rhiant dros bob plentyn a sut mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant (e.e. 'mam y plentyn', 'tad y plentyn ac roedd yn briod â'r fam pan aned y plentyn', ac ati).
(Gweler Adran E o daflen CB1 am ragor o wybodaeth)

**1d.** Gyda phwy y mae'r plant yn byw ar hyn o bryd?

☐ Y Ceisydd/Ceiswyr ☐ Yr Atebydd/Atebwyr ☐ Arall

Os arall, rhowch gyfeiriad llawn y plentyn, enwau unrhyw oedolion sy'n byw gyda'r plentyn a'u perthynas neu eu cysylltiad â'r plentyn.

Os nad ydych chi eisiau i'r Atebydd gael yr wybodaeth hon, gadewch y blwch ar gyfer y manylion yn wag a llenwch Ffurflen C8 manylion cyswllt cyfrinachol.

## 2. Gofyniad i fynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM)

Cyn gwneud cais am orchymyn trefniadau plant, gorchymyn camau gwaharddedig neu orchymyn mater penodol (gorchymyn adran 8), i ddechrau mae'n rhaid i chi fynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM). Yn y MIAM bydd cyfryngwr teuluol awdurdodedig yn ystyried gyda chi (a'r parti arall os yw'n bresennol) a fyddai cyfryngu teuluol, neu ddull arall o ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys, yn ddewis mwy priodol ar gyfer datrys yr anghydfod. Bydd y cyfryngwr hefyd yn gallu eich cyfeirio at wasanaethau eraill a allai eich helpu a'ch cefnogi.

Mae'n **rhaid** eich bod wedi mynychu MIAM cyn gwneud y cais hwn **oni bai** nad yw'r gofyniad i fynychu MIAM yn berthnasol oherwydd:

- bod y gorchymyn adran 8 yr ydych yn gwneud cais amdano yn orchymyn cydsynio; **neu**
- bod y gorchymyn adran 8 yr ydych yn gwneud cais amdano yn ymwneud â phlentyn sy'n destun achos brys cyfredol ar wahân, achos gofal neu achos goruchwylio (neu ei fod eisoes yn destun gorchymyn brys, gofal neu oruchwylio); **neu**
- eich bod wedi'ch esemptio o'r gofyniad i fynychu MIAM. Lle mae angen tystiolaeth i gefnogi hawliad am esemptiad MIAM, rhaid i chi gyflwyno'r dystiolaeth hon ochr yn ochr â'ch cais.

**Mae'n rhaid i bob ceisydd lenwi adrannau 1, 2 a 5 i 14 cyn llofnodi'r ffurflen hon.**

**Hefyd, rhaid i chi** roi tic yn un o'r blychau isod a sicrhau eich bod chi, eich cynghorydd cyfreithiol, cyfryngwr teuluol neu weithiwr proffesiynol NCDR yn llenwi a (lle bo'n berthnasol) llofnodi adran(nau) perthnasol y ffurflen hon.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2a.** Os bu i chi ddewis 'Ydynt' ar dudalen 1 ynglŷn ag achosion llys cyfredol neu flaenorol, a yw/oedd unrhyw un o'r achosion hynny yn ymwneud â gorchymyn amddiffyn brys, gorchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio? | ☐ Ydy/Oedd | ☐ Nac ydy/Nac oedd | **Os Ydy/Oedd, llenwch adran 7** er mwyn darparu manylion ychwanegol.<br><br>**Peidiwch â chwblhau adran 3 a 4.**<br><br>**Os Nac ydy/Nac oedd, atebwch gwestiwn 2b.** |
| **2b.** Ydych chi wedi mynychu MIAM? | ☐ Do | ☐ Naddo | **Os Do,** rhaid i chi sicrhau bod **y cyfryngwr teuluol yn llofnodi adran 4.**<br><br>**Os Naddo, atebwch gwestiwn 2c.** |
| **2c.** A ydych yn hawlio esemptiad o'r gofyniad i fynychu MIAM? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw | **Os Ydw, dylech lenwi adran 3.**<br><br>**Os Nac ydw,** ni allwch gyflwyno'r cais hwn i'r llys. Cyfeiriwch at y daflen 'CB7 - Canllaw i rieni sydd wedi gwahanu: plant a'r llys teulu' i gael rhagor o wybodaeth am beth i'w wneud nesaf a sut i drefnu MIAM. |

## 3. Mae'r ceisydd yn hawlio esemptiad(au) rhag mynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM)

**I'w lenwi gan y sawl sy'n bwriadu cyflwyno cais i'r llys neu eu cyfreithiwr. Lle bo angen, rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r esemptiad(au) MIAM a hawlir i'r llys ochr yn ochr â'r cais hwn.**
Os na allwch ddarparu'r dystiolaeth ofynnol gyda'ch cais, defnyddiwch y blwch testun ar dudalen 11 i egluro'r rheswm/rhesymau pam.

Nid yw'r ceisydd wedi mynychu MIAM oherwydd bod yr esemptiad(au) MIAM canlynol yn berthnasol:

- ☐ Cam-drin domestig (rhaid i chi lenwi **adran 3a**)
- ☐ Pryderon ynglŷn ag amddiffyn plant (rhaid i chi lenwi **adran 3b**)
- ☐ Cais brys (rhaid i chi lenwi **adran 3c**)
- ☐ Wedi mynychu MIAM yn barod neu ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys (rhaid i chi lenwi **adran 3d**)
- ☐ Arall (rhaid i chi lenwi **adran 3e**)

**Nawr llenwch yr adran berthnasol yn 3a, b, c, d, neu e drwy roi tic yn y blwch/blychau priodol**

### Rhagor o fanylion am esemptiad(au) MIAM a hawliwyd gan y ceisydd

Os ydych wedi hawlio esemptiad MIAM uchod, rhaid i chi hefyd roi tic yn y blwch/blychau perthnasol, fel y nodir isod, er mwyn cadarnhau bod gennych y dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi eich sail/seiliau dros hawlio esemptiad. Lle bo angen, **rhaid** i chi gyflwyno'r dystiolaeth hon gyda'ch cais i'r llys. Pan ofynnir i chi ddarparu rhagor o fanylion, rhaid i chi wneud hynny.

**Adran 3a - Tystiolaeth o gam-drin domestig**
Mae'r esemptiad MIAM hwn yn gofyn am y dystiolaeth yr ydych wedi'i dewis i'w chyflwyno gyda'ch cais.

Os na allwch ddarparu hyn, defnyddiwch y blwch testun ar dudalen 11 i egluro'r rheswm/rhesymau pam.

**Mae'r ceisydd yn cadarnhau bod tystiolaeth o gam-drin domestig, fel y nodir isod:**

- ☐ tystiolaeth bod darpar barti wedi cael ei arestio am drosedd cam-drin domestig perthnasol;
- ☐ tystiolaeth o rybudd heddlu perthnasol am drosedd cam-drin domestig;
- ☐ tystiolaeth o achos troseddol perthnasol am drosedd cam-drin domestig sydd heb ddod i ben;
- ☐ tystiolaeth o euogfarn berthnasol am drosedd cam-drin domestig;
- ☐ gorchymyn llys yn rhwymo darpar barti mewn perthynas â throsedd cam-drin domestig;
- ☐ hysbysiad diogelu rhag trais domestig a roddwyd o dan Adran 24 Deddf Troseddau a Diogelwch 2010 yn erbyn darpar barti;
- ☐ hysbysiad amddiffyn rhag cam-drin domestig a roddwyd dan Adran 22 Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn erbyn darpar barti;
- ☐ gwaharddeb gwarchod perthnasol;
- ☐ ymgymeriad a roddwyd yng Nghymru a Lloegr dan adran 46 neu 63E Deddf Cyfraith Teulu 1996 (neu a roddwyd yn Yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon yn lle gwaharddeb gwarchod) gan ddarpar barti, ar yr amod na roddwyd traws-ymgymeriad mewn perthynas â thrais domestig neu gam-drin domestig gan ddarpar barti arall;
- ☐ copi o ganfyddiad ffeithiol, a wnaed mewn achos yn y Deyrnas Unedig, bod cam-drin domestig wedi'i gyflawni gan ddarpar barti;
- ☐ adroddiad arbenigwr a gyflwynwyd fel tystiolaeth mewn achos yn y Deyrnas Unedig er mwyn i lys neu dribiwnlys allu cadarnhau bod unigolyn sydd neu a oedd yn ymwneud yn bersonol â darpar barti, wedi'i asesu fel bod, neu mewn risg o fod, yn ddioddefwr cam-drin domestig gan y darpar barti hwnnw;
- ☐ llythyr neu adroddiad gan weithiwr iechyd proffesiynol priodol yn cadarnhau bod-

Adran 3a - Tystiolaeth o gam-drin domestig - **parhad**

(i) y gweithiwr proffesiynol hwnnw, neu weithiwr iechyd proffesiynol priodol arall, wedi cynnal archwiliad meddygol ar ddarpar barti wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu trwy fideo gynadledda; ac

(ii) ym marn broffesiynol resymol yr awdur neu'r gweithiwr iechyd proffesiynol priodol sy'n archwilio, bod gan ddarpar barti, neu ei fod wedi cael, anafiadau neu gyflwr sy'n gyson â bod yn ddioddefwr camdriniaeth domestig;

☐ llythyr neu adroddiad gan-

(i) y gweithiwr iechyd proffesiynol priodol a wnaeth yr atgyfeiriad a ddisgrifir isod;

(ii) gweithiwr iechyd proffesiynol priodol sydd â mynediad at gofnodion meddygol y darpar barti y cyfeiriwyd ato isod; neu

(iii) yr unigolyn y gwnaethpwyd yr atgyfeiriad a ddisgrifir isod iddo;

yn cadarnhau bod darpar barti wedi cael ei gyfeirio gan weithiwr iechyd proffesiynol priodol at unigolyn sy'n darparu cefnogaeth neu gymorth arbenigol i ddioddefwyr, neu'r rhai hynny sydd mewn risg o ddioddef camdriniaeth domestig;

☐ llythyr gan unrhyw unigolyn sy'n aelod o gynhadledd asesu risg amlasiantaeth (neu fforwm diogelu lleol addas arall) yn cadarnhau bod darpar barti, neu unigolyn y mae'r darpar barti hwnnw/honno yn ymwneud ag ef/â hi yn bersonol, yn neu wedi bod mewn risg o niwed o ganlyniad i gam-drin domestig gan ddarpar barti arall;

☐ llythyr gan ymgynghorydd trais domestig annibynnol (IDVA) yn cadarnhau eu bod yn darparu neu eu bod wedi darparu cefnogaeth i ddarpar barti;

☐ llythyr gan ymgynghorydd trais rhywiol annibynnol (ISVA) yn cadarnhau eu bod yn darparu neu eu bod wedi darparu cefnogaeth i ddarpar barti o ganlyniad i drais rhywiol gan ddarpar barti arall.

☐ llythyr gan swyddog a gyflogir gan awdurdod lleol neu gymdeithas tai (neu sefydliad cyfwerth yn Yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon) yn cefnogi tenantiaid sy'n cynnwys-

(i) datganiad sy'n nodi, yn eu barn broffesiynol resymol nhw, bod unigolyn y mae darpar barti yn, neu wedi bod â chysylltiad personol ag o/â hi yn, neu mewn risg o ddioddef camdriniaeth domestig gan y darpar barti hwnnw;

(ii) disgrifiad o'r materion penodol y gellir dibynnu arnynt i gefnogi'r farn honno; a

(iii) disgrifiad o'r gefnogaeth a roddwyd ganddynt i'r dioddefwr camdriniaeth domestig neu'r unigolyn sydd mewn risg o gamdriniaeth domestig gan y darpar barti hwnnw;

☐ llythyr-

(i) gan sefydliad sy'n darparu gwasanaethau cefnogi camdriniaeth domestig a bod y llythyr yn cadarnhau bod y gwasanaeth-

(a) wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig,

(b) wedi bod yn gweithredu am gyfnod di-dor o chwe mis neu hirach; a'i fod

(c) wedi darparu cefnogaeth i ddarpar barti mewn perthynas ag anghenion yr unigolyn hwnnw fel dioddefwr, neu unigolyn sydd mewn risg o gamdriniaeth domestig; ac

(ii) mae'n cynnwys-

(a) datganiad sy'n nodi, yn marn proffesiynol rhesymol awdur y llythyr, bod y darpar barti mewn, neu mewn risg o fod yn ddioddefwr

Adran 3a - Tystiolaeth o gam-drin domestig - **parhad**

camdriniaeth domestig;

(b) disgrifiad o'r materion penodol y gellir dibynnu arnynt i gefnogi'r farn honno;

(c) disgrifiad o'r gefnogaeth a roddwyd i'r darpar barti; a

(d) datganiad o'r rhesymau pam bod y darpar barti angen y gefnogaeth honno;

☐ llythyr neu adroddiad gan sefydliad sy'n darparu gwasanaethau cefnogi camdriniaeth domestig yn y Deyrnas Unedig yn cadarnhau-

(i) bod cais am loches i unigolyn sydd, neu a oedd â chysylltiad personol â darpar barti, wedi cael ei wrthod;

(ii) y dyddiad y cafodd y cais am loches ei wrthod; a'u

(iii) bod wedi gwneud cais am loches oherwydd honiadau o gam-drin domestig gan y darpar barti a gyfeiriwyd atynt ym mharagraff (i);

☐ llythyr gan awdurdod cyhoeddus yn cadarnhau bod unigolyn sydd, neu a oedd yn ymwneud yn bersonol â darpar barti, wedi'i asesu fel ei fod yn ddioddefwr, neu mewn risg o fod yn ddioddefwr cam-drin domestig gan y darpar barti hwnnw/o (neu gopi o'r asesiad hwnnw).

☐ llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref yn cadarnhau bod darpar barti wedi cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig fel dioddefwr cam-drin domestig.

☐ tystiolaeth sy'n dangos bod darpar barti wedi bod, neu mewn risg o fod, yn ddioddefwr camdriniaeth domestig gan ddarpar barti arall ar ffurf camdriniaeth mewn perthynas â materion ariannol.

**Adran 3b – Pryderon ynglŷn ag amddiffyn plant**

**Mae'r ceisydd yn cadarnhau bod plentyn yn destun y cais a bod y plentyn hwnnw neu blentyn arall o'r teulu sy'n byw gyda'r plentyn hwnnw ar hyn o bryd—**

☐ yn destun ymholiadau a gynhelir gan awdurdod lleol dan Adran 47 Deddf Plant 1989; neu

☐ yn destun cynllun amddiffyn plant a roddir ar waith gan awdurdod lleol

**Adran 3c – Cais brys**

**Mae'r ceisydd yn cadarnhau bod rhaid gwneud cais brys oherwydd:**

☐ mae yna risg i fywyd, rhyddid neu ddiogelwch corfforol y ceisydd arfaethedig neu ei deulu/theulu neu ei gartref/chartref; neu

☐ byddai unrhyw oedi a achosir trwy fynychu MIAM yn peri—

- ☐ risg o niwed i blentyn; neu
- ☐ risg o gludo plentyn yn anghyfreithlon o'r Deyrnas Unedig, neu risg o gadw plentyn sydd y tu allan i Gymru a Lloegr ar hyn o bryd yn anghyfreithlon; neu
- ☐ risg sylweddol o gamwedd cyfiawnder; neu
- ☐ galedi ariannol sylweddol i'r ceisydd arfaethedig; neu
- ☐ broblemau anadferadwy wrth ddelio â'r anghydfod (gan gynnwys colled anadferadwy o dystiolaeth sylweddol); neu

☐ bod risg sylweddol yn y cyfnod a gymerir i drefnu a mynychu MIAM, y bydd achos mewn perthynas â'r anghydfod yn cael ei ddwyn gerbron llys mewn gwlad arall, lle y gall hawliad dilys i awdurdodaeth fodoli, megis y gall llys yn y wlad arall honno wrando ar yr anghydfod cyn llys yng Nghymru a Lloegr

**Adran 3d – Tystiolaeth o fynychu MIAM neu ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys eisoes**

Mae'r esemptiad MIAM hwn yn gofyn am y dystiolaeth yr ydych wedi'i dewis i'w chyflwyno gyda'ch cais.

Os na allwch ddarparu hyn, defnyddiwch y blwch testun ar dudalen 11 i egluro'r rheswm/ rhesymau pam.

**Mae'r ceisydd yn cadarnhau bod un o'r canlynol yn berthnasol:**

☐ Yn y 4 mis cyn gwneud y cais, mae'r unigolyn wedi mynychu MIAM neu wedi cymryd rhan mewn proses datrys anghydfod y tu allan i'r llys yn ymwneud â'r un anghydfod neu'r un anghydfod i raddau helaeth; a phan fu i'r ceisydd gymryd rhan mewn proses datrys anghydfod y tu allan i'r llys, mae yna dystiolaeth o hynny ar ffurf cadarnhad ysgrifenedig gan y darparwr datrys anghydfod. Dylid cyflwyno'r dystiolaeth hon ochr yn ochr â'ch cais, a rhaid iddi gynnwys llofnod y darparwr; neu

☐ byddai'r cais yn cael ei wneud ynghylch achos presennol sy'n parhau ac mi wnaeth y darpar geisydd fynychu MIAM cyn cychwyn yr achos hwnnw. Rhaid i'r darparwr MIAM lenwi a llofnodi adran 4 y ffurflen hon. Neu, os mai chi oedd yr atebydd yn yr achos sydd ar y gweill, rhowch ddyddiad y MIAM yn ogystal ag enw a manylion cyswllt y darparwr MIAM yn y blwch testun ar dudalen 10.

**Adran 3e - Esemptiadau eraill**

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani yn y blwch testun ar dudalen 10.

**Mae'r ceisydd yn cadarnhau bod un o'r esemptiadau eraill canlynol yn berthnasol:**

☐ byddai'r cais yn cael ei wneud heb rybudd (Mae paragraff 5.1 o Gyfarwyddyd Ymarfer 18A yn nodi'r amgylchiadau pan ellir gwneud cais heb rybudd.)

☐ mae un o'r darpar bartïon yn blentyn.

☐ (i) ni all y darpar geisydd fynychu MIAM ar-lein neu drwy gyswllt fideo a rhoddir esboniad am hyn i'r llys trwy ddefnyddio'r blwch testun ar dudalen 10; ac

(ii) mae'r darpar geisydd wedi cysylltu â'r holl gyfryngwyr teuluol awdurdodedig sydd â swyddfa o fewn pymtheg milltir i'w gartref neu ei chartref (neu pump ohonynt os oes pump neu fwy), ac mae pob un ohonynt wedi dweud nad ydynt ar gael i gynnal MIAM o fewn pymtheg diwrnod gwaith o'r dyddiad cyswllt; ac

(iii) darperir enwau, cyfeiriadau post a rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost y cyfryngwyr teuluol awdurdodedig y mae'r darpar geisydd wedi cysylltu â nhw, a'r dyddiadau cyswllt, i'r llys yn y blwch testun ar dudalen 10.

☐ (i) ni all y darpar geisydd fynychu MIAM ar-lein neu drwy gyswllt fideo a rhoddir esboniad am hyn i'r llys trwy ddefnyddio'r blwch testun ar dudalen 10; ac

(ii) mae gan y darpar geisydd anabledd neu analluogrwydd a fyddai'n golygu na allai fynychu MIAM wyneb yn wyneb oni bai bod y cyfryngwr awdurdodedig yn gallu cynnig cyfleusterau addas; ac

(iii) mae'r darpar geisydd wedi cysylltu â'r holl gyfryngwyr teuluol awdurdodedig sydd â swyddfa o fewn pymtheg milltir i'w gartref neu ei chartref (neu pump ohonynt os oes pump neu fwy), ac mae pob un ohonynt wedi dweud na allant ddarparu cyfleusterau o'r fath; a

(iv) darperir enwau, cyfeiriadau post a rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost y cyfryngwyr teuluol awdurdodedig hynny a'r dyddiadau cysylltu i'r llys yn y blwch testun ar dudalen 10.

☐ (i) nid yw'r darpar geisydd yn gallu mynychu MIAM ar-lein neu drwy gyswllt fideo; a

(ii) nid oes gan yr un cyfryngwr teuluol awdurdodedig swyddfa o fewn pymtheg milltir i gartref y darpar geisydd; ac

(iii) mae esboniad o pam mae'r esemptiad hwn yn berthnasol yn cael ei ddarparu gan y darpar geisydd i'r llys yn y blwch testun ar dudalen 10.

☐ ni all y darpar geisydd fynychu MIAM oherwydd bod y darpar geisydd

(i) yn y carchar neu mewn unrhyw sefydliad arall y mae’n ofynnol i’r darpar geisydd gael ei gadw yn y ddalfa ac na all cyfleusterau fod ar gael iddo fynychu MIAM ar-lein neu drwy gyswllt fideo; neu

(ii) yn destun amodau mechniaeth sy’n ei atal rhag cysylltu â’r unigolyn arall; neu

(iii) yn destun trwydded gyda gofyniad i beidio â chysylltu â’r unigolyn arall.

**Adran 3 – parhad**

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani yn y blwch testun isod. Os nad oes digon o le, defnyddiwch dudalen gwybodaeth ychwanegol a'i rhoi ynghlwm wrth y ffurflen hon.

**Adran 3 – Methu â darparu'r dystiolaeth ofynnol i gefnogi hawliad am esemptiad MIAM**

Os na allwch ddarparu'r dystiolaeth ofynnol i gefnogi hawliad am esemptiad MIAM gyda'ch cais, defnyddiwch y blwch testun isod i egluro'r rheswm/rhesymau pam yn fras.

| |
|---|
| |

**Dylech nawr lenwi Adran 5.**

## 4. Darparwr MIAM yn cadarnhau fod y ceisydd/atebydd wedi mynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM)

**I'w lenwi a'i lofnodi gan gyfryngwr teuluol awdurdodedig, fel y darparwr MIAM.**

Mae NCDR yn cyfeirio at ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys, ac mae'n golygu dulliau o ddatrys anghydfod heblaw drwy broses y llys, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyfryngu, cyflafareddu, gwerthusiad gan drydydd parti niwtral (fel proses Datrys Anghydfodau Ariannol yn breifat) a chyfraith gydweithredol.

(ticiwch y blychau sy'n berthnasol)

**Enw'r cyfranogwr/cyfranogwyr**

| |
|---|
| |

**Mi wnaeth y ceisydd fynychu MIAM:**

☐ Dim ond y ceisydd wnaeth fynychu MIAM.

☐ Mae'r ceisydd a'r atebydd/atebwyr wedi mynychu MIAM ar wahân.

**Nid yw cyfryngu neu fath arall o NCDR yn mynd rhagddo oherwydd:**

☐ Mae'r ceisydd wedi mynychu MIAM ar ei ben/phen ei hun ac

- nid yw'r ceisydd yn ystyried ei bod yn briodol dechrau neu barhau â chyfryngu neu unrhyw fath arall o NCDR ar hyn o bryd; neu
- mae'r cyfryngwr wedi nodi bod cyfryngu neu unrhyw fath arall o NCDR yn anaddas ar hyn o bryd; neu
- nid yw'r atebydd wedi mynychu MIAM, wedi ceisio cyfryngu nac wedi ceisio math arall o NCDR ar hyn o bryd.

☐ Mae'r ceisydd a'r atebydd/atebwyr wedi mynychu MIAM ac

- nid yw'r ceisydd yn ystyried ei bod yn briodol dechrau neu barhau â chyfryngu neu unrhyw fath arall o NCDR ar hyn o bryd; neu
- nid yw'r atebydd/atebwyr yn ystyried ei bod yn briodol dechrau neu barhau â chyfryngu neu unrhyw fath arall o NCDR ar hyn o bryd; neu
- mae'r cyfryngwr wedi nodi bod cyfryngu neu unrhyw fath arall o NCDR yn anaddas ar hyn o bryd.

☐ Mae proses NCDR ar fin dechrau neu wedi dechrau ond:

- mae wedi torri i lawr; neu
- mae wedi dod i ben ar ôl i'r partïon fethu â phenderfynu ar yr holl faterion neu rai ohonynt; neu
- mae'r ceisydd yn ystyried bod angen gwneud cais llys ochr yn ochr â'r NCDR.

Llofnod

**Cyfryngwr Teuluol Awdurdodedig**
(cyfryngwr teuluol sydd wedi'i awdurdodi i gynnal MIAM)

| | |
|---|---|
| Rhif cofrestru FMC | |
| Enw'r Gwasanaeth Cyfryngu Teuluol | |
| Enw'r Unig fasnachwr | |
| Cyfeiriad | |

Dyddiad D D / M M / B B B B

## 5. Pam ydych yn gwneud y cais hwn?

Ydych chi wedi gwneud cais i'r llys am ganiatâd i wneud y cais hwn?

☐ Do ☐ Naddo - nid oes angen cael caniatâd. ☐ Naddo - ceisir caniatâd yn awr

**5a.** Rhesymau dros gael caniatâd os oes angen caniatâd.

**5b.** Rhowch fanylion cryno:

- unrhyw gytundebau blaenorol (ffurfiol neu anffurfiol) neu gynlluniau rhianta, a sut y maent wedi methu
- eich rhesymau dros ddod â'r cais hwn i'r llys
- beth yr ydych am i'r llys ei wneud
- y rhesymau a roddwyd gan yr atebydd/atebwyr dros eu gweithredoedd mewn perthynas â'r cais hwn.

**Peidiwch â rhoi datganiad llawn, rhowch grynodeb o unrhyw resymau perthnasol.** Efallai y gofynnir i chi ddarparu datganiad llawn yn ddiweddarach.

**5c.** Ydych chi wedi paratoi Cynllun Rhianta o'r blaen?

☐ Do ☐ Naddo

**Os Naddo,** gallwch lawrlwytho copi o'r wefan https://www.planningtogether.cafcass.gov.uk/plan

**Os Do,** atodwch y cynllun i'r ffurflen gais hon

## 6. Gwrandawiadau brys a heb rybudd

**Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi ticio'r blwch perthnasol ar flaen y ffurflen**

Mae enghreifftiau o achosion lle mae angen gwrandawiad brys yn cynnwys lle gallai fod risg uniongyrchol o niwed i chi neu'r plentyn. Fel arall, gyda nifer o achosion, cynhelir y gwrandawiad cyntaf o fewn 2 fis. Bydd y llys yn penderfynu a oes angen gwrandawiad brys ar eich achos.

**6a. Gwrandawiad brys**

Nodwch y gorchymyn/gorchmynion neu gyfarwyddiadau a geisir

Nodwch y rhesymau dros y brys

**Amserlen arfaethedig**

Dylid ystyried y cais o fewn ______ awr/diwrnod

Os ceisir ystyriaeth o fewn 48 awr, rhaid i chi gwblhau'r adran isod

Beth ydych wedi'i wneud i roi pob atebydd ar rybudd am y cais?

**Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi ticio'r blwch perthnasol ar flaen y ffurflen**

**6b. Gwrandawiad heb rybudd**

Nodwch y rhesymau dros ystyried y cais heb roi rhybudd. (Mae'r wybodaeth hon yn ofynnol, **ni fydd** gwrandawiad heb rybudd yn cael ei gyfarwyddo heb reswm)

A oes angen gwrandawiad heb rybudd arnoch oherwydd nad yw'n bosibl rhoi rhybudd gan gynnwys rhybudd cryno neu rybudd anffurfiol?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, nodwch y rhesymau isod

A oes angen gwrandawiad heb rybudd arnoch oherwydd bydd rhoi rhybudd i atebydd yn rhwystro'r gorchymyn y gwneir cais amdano?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, nodwch y rhesymau isod

## 7. Achosion llys eraill yn ymwneud â'r plentyn/plant a restrir yn Adran 1

**Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi ticio'r blwch perthnasol ar flaen y ffurflen hon.**
Defnyddiwch yr adran hon i roi manylion am unrhyw achosion llys eraill ar hyn o bryd, neu ar unrhyw adeg yn y gorffennol, sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r plant a restrir yn Adran 1.

**Manylion ychwanegol**

Enw'r plentyn/plant

Enw'r llys lle cynhaliwyd yr achos

Rhif yr achos

Dyddiad/blwyddyn (os yw'n hysbys)

Enw a swyddfa (os yn hysbys) y swyddog Cafcass/Cafcass Cymru

**Math o achos os yw'n hysbys - ticiwch bob un sy'n berthnasol**

| | | |
|---|---|---|
| Gorchymyn Diogelu Brys | ☐ Oes | ☐ Nac oes |
| Gorchymyn Goruchwylio | ☐ Oes | ☐ Nac oes |
| Gorchymyn Gofal | ☐ Oes | ☐ Nac oes |
| Herwgydio plentyn | ☐ Oes | ☐ Nac oes |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 Rhan 4 (achos am Orchymyn Rhag Molestu neu Orchymyn Anheddu) | ☐ Oes | ☐ Nac oes |
| Gorchymyn Cyswllt neu Orchymyn Preswylio (Adran 8 Deddf Plant 1989) a wnaed fel rhan o achos ysgaru neu achos diddymu partneriaeth sifil | ☐ Oes | ☐ Nac oes |
| Gorchymyn Cyswllt neu Orchymyn Preswylio (Adran 8 Deddf Plant 1989) a wnaed mewn perthynas â Gorchymyn Mabwysiadu | ☐ Oes | ☐ Nac oes |
| Gorchymyn yn ymwneud â Chynhaliaeth Plant (Atodlen 1, Deddf Plant 1989) | ☐ Oes | ☐ Nac oes |
| Gorchymyn Trefniadau Plant (Adran 8 Deddf Plant 1989) | ☐ Oes | ☐ Nac oes |

Ticiwch yma os oes dalenni ychwanegol wedi'u hatodi. ☐

**Atodwch gopi o unrhyw orchymyn perthnasol.**

## 8. Achosion gydag elfen ryngwladol

**Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi ticio'r blwch perthnasol ar flaen y ffurflen hon.**

A oes gennych unrhyw reswm dros gredu bod unrhyw blentyn, rhiant, neu oedolyn a allai fod yn allweddol ym mywyd y plentyn yn preswylio'n arferol mewn gwlad arall?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion

A oes gennych unrhyw reswm dros gredu y gallai bod problem ynghylch awdurdodaeth yn yr achos hwn?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion

A oes cais wedi'i wneud, neu a ddylid gwneud cais i Awdurdod Canolog neu awdurdod cymwys arall mewn gwlad dramor neu awdurdod consylaidd yng Nghymru a Lloegr?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion

## 9. Ffactorau sy'n effeithio ar y gallu i gymryd rhan mewn achosion

**Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi ticio'r blwch perthnasol ar flaen y ffurflen hon.**

Rhowch fanylion unrhyw ffactorau sy'n effeithio ar gapasiti cyfreitha

Rhowch fanylion unrhyw atgyfeiriad i, neu asesiad gan y tîm Oedolion ag Anabledd Dysgu, ac/neu unrhyw wasanaeth iechyd i oedolion, lle bo hynny'n hysbys, ynghyd â'r canlyniad

A ydych yn ymwybodol o unrhyw ffactorau eraill a allai effeithio ar allu yr unigolyn perthnasol i gymryd rhan yn yr achos?

## 10. Mynychu'r llys

Mae Adran N y llyfryn **'CB1 – Gwneud cais – Plant a'r Llys Teulu'** a'r daflen **'CB7 – Canllawiau i rieni sydd wedi gwahanu: plant a'r llys teulu'** yn rhoi gwybodaeth am fynychu'r llys.

**Os bydd angen cyfieithydd arnoch, rhaid i chi ddweud wrth y llys nawr, er mwyn gallu trefnu bod un ar gael. Noder, mewn unrhyw achos llys yng Nghymru, mae gennych hawl i siarad Cymraeg mewn unrhyw wrandawiad llys.**

**10a.** Ydych chi neu unrhyw barti arall eisiau siarad Cymraeg yn ystod achos neu angen dogfennau ysgrifenedig yn Gymraeg?

☐ Ydw / Ydyn ☐ Nac ydw / Nac ydyn

Os felly, nodwch enwau'r partïon/tystion/plant sydd eisiau siarad Cymraeg neu gael dogfennau ysgrifenedig yn Gymraeg?

| Enw | | | |
|---|---|---|---|
| | ☐ Llafar | ☐ Ysgrifenedig | ☐ Y ddau |
| | ☐ Llafar | ☐ Ysgrifenedig | ☐ Y ddau |
| | ☐ Llafar | ☐ Ysgrifenedig | ☐ Y ddau |
| | ☐ Llafar | ☐ Ysgrifenedig | ☐ Y ddau |
| | ☐ Llafar | ☐ Ysgrifenedig | ☐ Y ddau |
| | ☐ Llafar | ☐ Ysgrifenedig | ☐ Y ddau |
| | ☐ Llafar | ☐ Ysgrifenedig | ☐ Y ddau |

**10b.** A ydych chi neu unrhyw un o'r partïon angen i'r llys drefnu cyfieithydd neu gymorth o fath arall (e.e. iaith arwyddion)?

☐ Ydw / Ydyn ☐ Nac ydw / Nac ydyn

Os Ydych, pwy sydd angen y cyfieithydd

☐ ceisydd ☐ atebydd ☐ Parti arall *(rhowch fanylion)*

nodwch yr iaith a thafodiaith sydd eu hangen, os gwelwch yn dda:

**10c.** A ydych yn gwybod a fydd angen cyfryngwr?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os Ydw, rhowch fanylion

**10d.** Os byddwch yn mynychu'r llys, a oes gennych chi neu unrhywun o'r partïon cysylltiedig anabledd y bydd angen cymorth neu gyfleusterau arbennig arnoch ar ei gyfer?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, nodwch beth yw'r anghenion hynny

Dywedwch a oes angen i'r llys wneud unrhyw fesurau arbennig ar eich cyfer chi neu unrhyw blant perthnasol i fynychu'r llys. Gallwn roi mesurau arbennig mewn lle i'ch cadw chi ar wahân i'r atebydd pan fyddwch yn mynychu'r llys. Dewiswch unrhyw un o'r mesurau canlynol yr hoffech wneud cais amdanynt.

☐ ystafell aros ar wahân yn yr adeilad llys

☐ mynedfa ac allanfa ar wahân o'r adeilad llys

☐ cael eich cysgodi gan sgrin breifatrwydd yn ystafell y llys (byddai sgrin breifatrwydd yn golygu na fyddai'r atebydd yn gallu eich gweld tra byddech yn yr ystafell llys).

☐ ymuno â'r gwrandawiad drwy gyswllt fideo yn hytrach na bod yno wyneb yn wyneb (penderfyniad y barnwr yw p'un a ddylid caniatáu gwrandawiad drwy gyswllt fideo ai peidio).

Efallai y bydd staff y llys yn cysylltu â chi ynghylch eich gofynion.

**Deddf Cam-drin Domestig 2021**

Mae darpariaethau yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 yn atal unigolyn sydd wedi ei gyhuddo o gam-drin rhag holi parti neu dyst yn yr achos sydd wedi dioddef y gamdriniaeth, ac mae hefyd yn atal dioddefwr camdriniaeth rhag holi'r unigolyn a gyhuddir mewn amgylchiadau penodol.

Os yw'r llys yn gorchymyn bod yr achos yn cael ei restru ar gyfer gwrandawiad lle y gellir rhoi tystiolaeth lafar, efallai y bydd angen llenwi ffurflen **EX740** (unigolyn sy'n gwneud y cyhuddiad o gam-drin) neu ffurflen **EX741** (unigolyn a gyhuddwyd o gam-drin) 'Cais a gwybodaeth y mae ar y llys ei hangen i ystyried a ddylid atal (gwahardd) holi (croesholi) wyneb yn wyneb' fel y gall y llys ystyried a ddylid atal holi wyneb yn wyneb. Bydd y llys yn anfon y ffurflen briodol gyda'r gorchymyn llys.

## 11. Amdanoch chi (y ceisydd/ceiswyr)

| | **Ceisydd 1 (Chi)** | **Ceisydd 2 (os yw'n berthnasol)** |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | |
| Cyfenw(au) | | |
| Enwau blaenorol (os o gwbl) | | |
| Rhyw | ☐ Gwryw ☐ Benyw | ☐ Gwryw ☐ Benyw |
| Dyddiad geni (darllenwch adran Q o daflen CB1 os ydych o dan 18) | D D / M M / B B B B | D D / M M / B B B B |
| Man geni (tref, sir, gwlad) | | |

**Os nad ydych chi eisiau i'r atebydd wybod eich cyfeiriad,** gadewch y blwch isod ar gyfer y manylion yn wag a llenwch Ffurflen Manylion Cyswllt Cyfrinachol C8.
Gwnewch yn siŵr **nad yw** unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn datgelu manylion cyswllt cyfrinachol rydych am eu dal yn ôl.

| | Ceisydd 1 | Ceisydd 2 |
|---|---|---|
| Cyfeiriad | Cod post | Cod post |
| Rhif ffôn cartref | | |
| Rhif ffôn symudol | | |
| Cyfeiriad e-bost | | |
| Ydych chi wedi byw yn y cyfeiriad hwn am fwy na 5 blynedd? | ☐ Do ☐ Naddo | ☐ Do ☐ Naddo |

Os Naddo, rhowch fanylion yr holl gyfeiriadau blaenorol lle buoch yn byw am y 5 mlynedd diwethaf.

## 12. Yr atebydd/atebwyr

Mae Adrannau G a H o'r llyfryn **'CB1 – Gwneud cais – Plant a'r Llysoedd Teulu'** yn esbonio pwy yw'r atebydd.

**Os oes mwy na 2 atebydd, defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau.**

| | **Atebydd 1** | **Atebydd 2** |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | |
| Cyfenw(au) | | |
| Enwau blaenorol (os yn hysbys) | | |
| Rhyw | ☐ Gwryw ☐ Benyw | ☐ Gwryw ☐ Benyw |
| Dyddiad geni (darllenwch adran Q o daflen CB1 os yw'r parti o dan 18) | D D / M M / B B B B<br>☐ Ddim yn gwybod | D D / M M / B B B B<br>☐ Ddim yn gwybod |
| Man geni (tref/sir/gwlad) | | |
| Y cyfeiriad (ar gyfer anfon dogfennau sy'n ymwneud â'r cais hwn) | Cod post<br>☐ Ddim yn gwybod | Cod post<br>☐ Ddim yn gwybod |
| Rhif ffôn cartref | | |
| Rhif ffôn symudol | ☐ Ddim yn gwybod | ☐ Ddim yn gwybod |
| Cyfeiriad e-bost | ☐ Ddim yn gwybod | ☐ Ddim yn gwybod |
| A ydynt wedi byw yn y cyfeiriad hwn am fwy na 5 mlynedd? | ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt ☐ Ddim yn gwybod | ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt ☐ Ddim yn gwybod |

Os nad ydynt, rhowch fanylion yr holl gyfeiriadau blaenorol am y 5 mlynedd diwethaf (os yn hysbys, gan gynnwys y dyddiadau, gan ddechrau gyda'r diweddaraf)

| Atebydd 1 | Atebydd 2 |
|---|---|
| | |

## 13. Pobl eraill y dylid eu hysbysu

Efallai y bydd pobl eraill y dylid eu hysbysu am eich cais, er enghraifft, rhywun sy'n gofalu am y plentyn, ond sydd ddim yn rhiant. Mae Adrannau G ac I o'r llyfryn **'CB1 – Gwneud cais – Plant a'r Llysoedd Teulu'** yn esbonio pwy yw'r rhai eraill.

| | Unigolyn 1 | Unigolyn 2 |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | |
| Cyfenw(au) | | |
| Enwau blaenorol (os yn hysbys) | | |
| Rhyw | ☐ Gwryw ☐ Benyw | ☐ Gwryw ☐ Benyw |
| Dyddiad geni | D D / M M / B B B B<br>☐ Ddim yn gwybod | D D / M M / B B B B<br>☐ Ddim yn gwybod |
| Cyfeiriad | Cod post<br>☐ Ddim yn gwybod | Cod post<br>☐ Ddim yn gwybod |
| Nodwch y berthynas â'r plant a restrir ar dudalen 1. Os nad yw'r berthynas yr un fath â phob plentyn, nodwch y berthynas â phob plentyn. | | |

**13a.** Plant eraill nad ydynt yn rhan o'r cais hwn

| Enw llawn y plentyn | Dyddiad geni | Rhyw |
|---|---|---|
| | D D / M M / B B B B<br>☐ Ddim yn gwybod | ☐ Gwryw<br>☐ Benyw |

| Y berthynas â'r ceisydd/ceiswyr | Y berthynas â'r atebydd/atebwyr |
|---|---|
| | |

| Enw llawn y plentyn | Dyddiad geni | Rhyw |
|---|---|---|
| | D D / M M / B B B B<br>☐ Ddim yn gwybod | ☐ Gwryw<br>☐ Benyw |

| Y berthynas â'r ceisydd/ceiswyr | Y berthynas â'r atebydd/atebwyr |
|---|---|
| | |

## 14. Manylion y cyfreithiwr

A oes gennych chi gyfreithiwr yn gweithredu ar eich rhan?

☐ Oes ☐ Nac oes Os nac oes, gweler adran Q o daflen CB1am ragor o wybodaeth

Os Oes, rhowch y manylion canlynol

| | |
|---|---|
| Enw eich cyfreithiwr | |
| Enw'r cwmni | |
| Cyfeiriad | Cod post |
| Rhif ffôn | |
| Rhif ffacs | |
| Rhif DX | |
| Cyfeirnod y Cyfreithiwr | |
| Rhif cyfrif ffi | |
| Cyfeiriad e-bost | |

## 15. Rhestr wirio

1. A ydych chi wedi llenwi adran 1 sy'n ymwneud â'r plentyn/plant yn llawn? ☐ Do ☐ Naddo
2. A ydych chi wedi llenwi adrannau 2, 3 a 4 sy'n ymwneud â mynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu yn llawn? ☐ Do ☐ Naddo
3. Os ydych yn hawlio esemptiad MIAM sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ddarparu tystiolaeth i'r llys, a ydych wedi darparu'r dystiolaeth hon? ☐ Do ☐ Naddo

   Mae angen tystiolaeth wrth hawlio esemptiad MIAM oherwydd cam-drin domestig neu oherwydd presenoldeb blaenorol mewn proses datrys anghydfod y tu allan i'r llys.
4. A ydych chi wedi llenwi adrannau 5 a 6 sy'n ymwneud â'r rhesymau dros wneud y cais yn llawn? ☐ Do ☐ Naddo
5. A ydych chi wedi llenwi adran 7 sy'n ymwneud ag achosion llys eraill yn llawn? ☐ Do ☐ Naddo
6. A ydych chi wedi llenwi adrannau 8, 9 a 10 am y ffactorau allai effeithio ar yr achos? ☐ Do ☐ Naddo
7. A ydych chi wedi llenwi adran 11 sy'n ymwneud â chi, y ceisydd yn llawn? ☐ Do ☐ Naddo
8. A ydych chi wedi llenwi adran 12, 13 a 14 sy'n ymwneud â'r atebydd ac eraill ddylai gael rhybydd ☐ Do ☐ Naddo
9. A ydych chi wedi llenwi adran 16 sy'n ymwneud a'r datganiad gwirionedd yn llawn? ☐ Do ☐ Naddo

Os ydych yn anfon copi ffisegol o'r ffurflen hon i'r llys, rhaid i chi anfon **o leiaf tri chopi.**

Mae hyn oherwydd y bydd un copi yn cael ei gadw gan y llys, un yn cael ei anfon atoch chi ac un yn cael ei anfon at yr atebydd.

## 16. Datganiad gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad o wirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ **Credaf** fod y ffeithiau a nodir yn y cais hwn yn wir.

☐ **Creda'r ceisydd** fod y ffeithiau a nodir yn y cais hwn yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

**Llofnod**

☐ Ceisydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd (fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

**Dyddiad**

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd

Os ydych yn llofnodi ar ran cwmni, nodwch y swydd a ddelir

**Ffi'r llys –** A ydych chi'n talu ffi'r llys gyda cherdyn credyd neu debyd?

☐ **Ydw,** bydd y llys yn cysylltu â chi, gan ddefnyddio'r manylion a roddwyd yn eich cais, o fewn tri diwrnod gwaith i gymryd taliad

☐ **Nac ydw**

**Beth sydd raid i chi ei wneud nesaf**
Fel arfer, dylech wneud eich cais i'r Ganolfan Deulu Ddynodedig yn eich ardal. Gallwch ddod o hyd i'r manylion perthnasol, a rhestr lawn o lysoedd a'r math o waith y maent yn ei wneud, ar-lein yn www.gov.uk/chwilio-am-lys-neu-dribiwnlys

**Ffioedd**
Efallai y bydd rhaid i chi dalu ffi gyda'ch cais. Dylech ddarllen taflen **EX50 Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu** i weld pa ffi, os o gwbl, y mae angen i chi ei thalu. Mae'r daflen hon ar gael o'ch llys lleol neu ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

# Nodiadau canllaw ar gyfer llenwi ffurflen C100

Darperir copi o adrannau perthnasol o'r cais hwn i Cafcass/Cafcass Cymru pan gychwynnir yr achos. Bydd yr wybodaeth a geir yn y ffurflen hon yn galluogi Cafcass/Cafcass Cymru i gynnal ymholiadau cyn gwrandawiad cyntaf y llys. Hebddi, ni fyddant yn gallu cynnal eu gwiriadau a'u hymholiadau diogelu cychwynnol.
Dylech ateb bob cwestiwn yn y ffurflen hon, neu nodi nad yw'r wybodaeth ar gael.
Mae Cafcass/Cafcass Cymru angen yr wybodaeth hanfodol hon a gallai methu â'i darparu arwain at oedi diangen gyda'r achos.

## Tudalen 1

Nodwch yn y blwch pa fath o orchymyn yr ydych yn gwneud cais amdano

Mae angen i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych eisiau gofyn i'r llys wneud gorchymyn (neu newid gorchymyn sydd eisiau yn bodoli) am blentyn/blant ac mae eich cais am y canlynol:

- gorchymyn trefniadau plant (lle dylai plentyn fyw, gyda phwy y dylai plentyn dreulio amser neu'r ddau); neu
- gorchymyn mater penodol (er enghraifft, os ydych yn gofyn i'r llys benderfynu a ddylid newid cyfenw plentyn); neu
- gorchymyn camau gwaharddedig (er enghraifft, os ydych yn gofyn i'r llys atal unigolyn rhag tynnu plentyn o ysgol).

Cyfeirir at y gorchmynion hyn fel 'gorchmynion adran 8' ac yn aml fe'u gwneir gan y llys dan adran 8 Deddf Plant 1989 i benderfynu materion ynghylch plentyn. Mae'n rhaid i chi roi tic yn y blwch perthnasol ar dudalen 1 i nodi pa fath o orchymyn/orchmynion yr ydych yn gwneud cais amdano/amdanynt. (Os ydych yn dymuno gofyn i'r llys orfodi gorchymyn Adran 8 blaenorol bydd angen i chi lenwi ffurflen llys wahanol – Ffurflen C79 (Cais yn ymwneud â gorfodi gorchymyn trefniadau plant)).

Os oes gennych unrhyw bryderon am y risg o niwed, ticiwch y blwch/blychau perthnasol a llenwch Ffurflen C1A (Honiadau o niwed a cham-drin domestig) ar wahân a rhowch hon i'r llys gyda'ch Ffurflen C100 wedi'i llenwi.

Ticiwch i nodi a ydych yn gwneud cais am ganiatâd i gyflwyno'r cais hwn (ac os felly, llenwch adran 5a).

Ticiwch i nodi a yw hwn yn gais am wrandawiad brys (ac os felly, llenwch adran 6a), neu a yw'r cais i'w ystyried heb roi rhybudd i barti arall (ac os felly, llenwch adran 6b).

Ticiwch i nodi a oes yna achosion eraill yn gysylltiedig â'r cais hwn (ac os felly, llenwch adran 7). Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth am achosion eraill, rhowch gymaint o fanylion â phosib am achosion llys yn y gorffennol neu yn y presennol yr ydych yn ymwybodol ohonynt sy'n ymwneud â'r plentyn/plant.

Ticiwch i nodi a yw eich cais am orchymyn i ffurfioli cytundeb (gorchymyn cydsynio) ac os felly, atodwch y gorchymyn drafft i'r ffurflen hon.

Ticiwch i nodi a oes yna elfen ryngwladol i'ch cais neu a oes yna unrhyw ffactorau a allai effeithio ar allu unrhyw barti yn yr achos hwn i fynychu gwrandawiadau.

## Tudalen 4

Atebwch gwestiynau 2a i 2c sy'n gofyn a oes yna achosion cyfochrog am orchymyn amddiffyn brys, gofal neu oruchwylio, a oes esemptiad yn gymwys neu a ydych wedi mynychu MIAM.

## Tudalennau 5 i 11

Os bu i chi ateb 'Ydw' i gwestiwn 2c ar dudalen 4, mae'n rhaid i chi roi tic yn un o'r pum blwch cyntaf yn adran 3 i ddynodi'r math o esemptiad yr ydych yn ei hawlio. Mae'n rhaid i chi wedyn lenwi adran 3a, b, c, d neu e.

Os ydych wedi mynychu MIAM, rhaid i chi ofyn i'r cyfryngwr teuluol a oedd yn bresennol i lenwi Adran 4 y ffurflen a'i llofnodi.

## Tudalen 13

Ticiwch i ddweud a ydych wedi, neu a ydych yn gwneud cais am ganiatâd i gyflwyno'r cais hwn (ac os ydych yn gofyn am ganiatâd, llenwch adran 5a).

Llenwch adran 5b i roi manylion cryno am pam rydych yn cyflwyno'r cais.

Llenwch adran 5c am unrhyw Gynllun Rhianta sydd eisoes wedi'i baratoi.

## Tudalen 18

Atebwch gwestiynau 10a i 10c drwy roi tic yn y blychau perthnasol a darparu manylion yn y blwch am unrhyw drefniadau arbennig sydd angen i'r llys wneud er mwyn i chi allu mynychu'r llys.

## Tudalen 20

Os nad ydych chi (y ceisydd) eisiau i'r cyfeiriad fod yn hysbys, dylid ei gynnwys yn y ffurflen gysylltiedig C8 (Manylion cyswllt cyfrinachol).
Gwnewch yn siŵr na fydd unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn cynnwys manylion cyswllt cyfrinachol rydych am eu dal yn ôl.

## Tudalen 21

Cyfeiriad yr atebydd, gan gynnwys y cod post.

Rhif ffôn yr atebydd ac, os yw'n berthnasol, rhif ffôn symudol.

A yw'r atebydd wedi byw yn y cyfeiriad hwnnw am fwy na 5 mlynedd.

## Tudalen 22

Manylion llawn y partïon eraill y dylid eu hysbysu am y cais.

## Tudalen 25

Sicrhewch eich bod chi (neu eich cyfreithiwr os yw'n berthnasol) wedi llenwi a llofnodi'r datganiad gwirionedd.

## Gwybodaeth gyffredinol ar gyfer llenwi'r ffurflen hon

### Gofyniad i fynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu

1. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi fynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM) cyn gwneud cais i'r llys teulu, oni bai bod esemptiad dilys yn berthnasol. Mae hyn yn golygu cyn cyflwyno'ch cais i'r llys, bod yn rhaid i chi (y ceisydd) gwrdd â chyfryngwr i gael gwybod am opsiynau ar gyfer datrys eich anghydfod y tu allan i'r llys. Mae disgwyl i'r parti arall (yr atebydd) fynychu naill ai yr un MIAM neu MIAM ar wahân.
2. Yn y MIAM, bydd cyfryngwr teuluol hyfforddedig yn rhoi gwybodaeth i chi (y ceisydd) a'r unigolyn arall os yw'n bresennol (yr atebydd) am wahanol opsiynau ar gyfer datrys anghydfod y tu allan i'r llys, fel cyfryngu. Byddant yn ystyried gyda chi p'un a fyddai datrys yr anghydfod y tu allan i'r llys yn briodol. Yna bydd i fyny i'r ceisydd a'r atebydd benderfynu beth i'w wneud nesaf.
3. Nid yw'r gofyniad i'r ceisydd fynychu MIAM yn berthnasol os gwneir cais am orchymyn Adran 8 ac:
   - mae'r person arall yn gytûn ynghylch yr hyn yr ydych yn gofyn i'r llys ei orchymyn ('gorchymyn cydsynio' yw'r gorchymyn); neu
   - bod achos parhaus ynghylch y plentyn/plant a fyddai'n destun cais Adran 8 ac mae'r achos hwnnw'n ymwneud â gorchymyn amddiffyn brys, gorchymyn goruchwylio neu orchymyn gofal, neu os oes un o'r gorchmynion hynny wedi'i wneud yn flaenorol.
4. Rhaid i chi roi tic yn y blwch priodol yn Adran 2 y ffurflen hon fel bod y llys yn gwybod p'un a yw'r gofyniad i fynychu MIAM yn berthnasol, p'un a oes esemptiad yn berthnasol (a pham) neu p'un a ydych wedi mynychu MIAM.

### Eisoes wedi mynychu MIAM neu esemptiadau MIAM

5. Fel y ceisydd, mae disgwyl eich bod chi wedi cysylltu â chyfryngwr teuluol awdurdodedig i wneud trefniadau i fynychu MIAM oni bai:
   - nad yw'r gofyniad MIAM yn berthnasol, neu
   - eich bod yn hawlio esemptiad MIAM
6. Gallwch ddod o hyd i gyfryngwr teuluol awdurdodedig trwy ddefnyddio'r cyfleuster chwilio 'Find your local mediator ' yn: www.familymediationcouncil.org.uk
7. Dylech roi manylion cyswllt yr unigolyn arall i'r cyfryngwr teuluol fel eu bod yn gallu cysylltu ag ef er mwyn ei wahodd i fynychu MIAM, naill ai gyda chi neu ar wahân.
8. Os ydych chi neu eich cyfreithiwr yn credu bod gennych sail dros hawlio esemptiad rhag gorfod mynychu MIAM, mae'n rhaid i chi neu eich cyfreithiwr roi tic yn y blwch perthnasol yn Adran 2 y ffurflen hon a llenwi Adran 3.
9. Os ydych wedi mynychu MIAM, mae'n rhaid i chi ofyn i'r cyfryngwr teuluol a oedd yn bresennol lenwi Adran 4 y ffurflen hon a'i llofnodi.
10. Os ydych yn hawlio esemptiad MIAM ac yn gwneud cais i'r llys, bydd y llys yn gwirio seiliau'r esemptiad. Ar gyfer rhai esemptiadau MIAM, mae angen tystiolaeth i brofi bod eich hawliad yn ddilys. Wrth hawlio esemptiad oherwydd cam-drin domestig neu oherwydd presenoldeb blaenorol mewn proses datrys anghydfod tu allan i'r llys, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o hyn i'r llys ynghyd â'r ffurflen hon.
11. Os bydd y llys yn penderfynu nad yw unrhyw esemptiad(au) MIAM a hawlir yn ddilys, neu nad ydynt bellach yn ddilys, gofynnir i chi fynychu MIAM cyn mynd â'ch cais ymhellach.
12. Mae manylion llawn y broses o ran y gofyniad i fynychu MIAM, eisoes wedi mynychu ac esemptiadau MIAM wedi'u pennu yn Rhan 3 y Rheolau Trefniadaeth Teulu ac yn y Cyfarwyddyd Ymarfer 3A. Mae rhain ar gael arlein yn: www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_03a

### Talu i fynychu MIAM neu am gyfryngu teuluol

13. Mae cymorth cyfreithiol ar gael i dalu am MIAM a chyfryngu teuluol. Os ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol gallwch fynychu'r MIAM a sesiynau cyfryngu yn rhad ac am ddim, a chewch rywfaint o gyngor gan gyfreithiwr i'ch cefnogi yn y broses gyfryngu.
14. Os ydych chi, neu'r darpar atebydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol yna bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn talu am holl gostau'r MIAM, p'un a ydych chi a'r darpar atebydd yn mynychu'r un MIAM neu MIAM ar wahân.
15. Os nad ydych chi neu'r darpar atebydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, yna bydd y cyfryngwr yn cytuno gyda chi sut y byddwch yn talu am fynychu'r MIAM.
16. Gweler paragraff 27 isod ynghylch sut i ganfod p'un a ydych yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol.

### Diogelwch wrth fynychu MIAM

17. Noder: bydd y cyfryngwr teuluol yn trafod gyda chi a'r unigolyn arall p'un a ydych yn dymuno mynychu'r MIAM ar wahân neu gyda'ch gilydd. Mae gan gyfryngwyr teuluol gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch pawb sy'n ymwneud â'r broses, a byddant wastad yn gofyn i'r holl bartïon gadarnhau mai eu dewis personol nhw yw mynychu gyda'i gilydd ac yn sicrhau bod gwneud hynny yn ddiogel.

### Gwybodaeth am gyfryngu

18. Os yw'n addas, gall cyfryngu fod yn ffordd well o ddatrys problemau ynghylch trefniadau ar gyfer plant pan fyddwch chi a'ch partner yn gwahanu neu'n ysgaru. Gall cyfryngu gostio llai na mynd i'r llys a gall achosi llai o straen i'r teulu cyfan. Gall hefyd eich helpu chi fel rhieni i ganolbwyntio ar anghenion eich plentyn/plant wrth wneud penderfyniadau amdanynt.

19. Mae cyfryngu teuluol yn broses ddiduedd a bydd trydydd unigolyn annibynnol yn cynorthwyo'r ddau barti sy'n gysylltiedig ag anghydfod teuluol i ganfod datrysiad. Gellir defnyddio cyfryngu teuluol i setlo unrhyw un, neu'r holl faterion canlynol:
    - Trefniadau ar gyfer plant
    - Trefniadau ariannol a rhannu eiddo
    - Unrhyw gyfuniad o'r rhain
    - Unrhyw anghydfodau eraill sy'n ymwneud â gwahanu ac ysgaru.

20. Nid yw cyfryngu teuluol ar gyfer cyplau sy'n ysgaru neu'n gwahanu yn unig – mae'n ffordd o ddatrys amrywiaeth o anghydfodau teuluol, p'un ai a ydynt yn codi o ganlyniad i ysgariad neu rieni yn gwahanu ai peidio. Gallai cyfryngu teuluol hefyd helpu i ddatrys anghydfodau gydag aelodau o'r teulu ehangach megis neiniau a theidiau.

21. Bydd y cyfryngwr teuluol yn helpu'r partïon i drafod a chytuno ar eu trefniadau eu hunain ar ffurf Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Gallwch ofyn i gyfreithiwr, os oes gennych un, wirio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

22. Os bydd y ddau barti yn cytuno, gallwch ofyn i'r llys ardystio beth yr ydych wedi cytuno arno drwy wneud gorchymyn cydsynio. Bydd y cyfryngwr yn eich helpu i benderfynu p'un a yw eich achos yn gymhleth a bod angen mewn gwirionedd i'r llys ystyried eich sefyllfa a gwneud gorchymyn. Dylai'r cyfryngwr hefyd ddweud wrthych am wasanaethau lleol eraill ac opsiynau eraill sydd ar gael i chi ddatrys eich anghydfod.

23. Clustnodir Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM) ar gyfer "cyfryngwyr awdurdodedig" dan y Rheolau Trefniadaeth Teulu. Golyga "cyfryngwr teuluol awdurdodedig" unigolyn a adnabyddir gan y Cyngor Cyfryngu Teuluol sy'n gymwys i gynnal MIAM. Dehonglir "sy'n gymwys i gynnal MIAM" fel meddu ar Achrediad cyfredol y Cyngor Cyfryngu Teuluol (FMCA) cyfredol. Rhoddir rhif cofrestru unigryw i bob cyfryngwr FMCA. Gofynnir i gyfryngwyr awdurdodedig nodi'r rhif hwn yn y bwlch perthnasol.

24. I gael rhagor o wybodaeth am wahanol fathau o NCDR, ewch i https://helpwithchildarrangements.service.justice.gov.uk/.

### Rhagor o wybodaeth a ffynonellau cymorth

25. Mae gwybodaeth gyffredinol am gyfryngu teuluol ar gael ar wefan y Cyngor Cyfryngu Teuluol yn: www.familymediationcouncil.org.uk

26. Rhaid i'r cyfryngwr teuluol sy'n cynnal eich MIAM fod yn aelod o sefydliad cyfryngu cenedlaethol sy'n glynu wrth God Ymddygiad y Cyngor Cyfryngu Teuluol a rhaid i'r cyfryngwr fod ag awdurdod i gynnal MIAM. Bydd yr adnodd canfod gwasanaeth yn eich helpu i ddod o hyd i gyfryngwr lleol addas.

27. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gymorth cyfreithiol ar gyfer materion teuluol, gan gynnwys p'un a allwch fod yn gymwys gael cymorth cyfreithiol gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Cyngor Cyfreithiol ar wefan GOV.UK yn: www.gov.uk/gwirio-os-ydych-yn-gymwys-i-gael-cymorth-cyfreithiol neu gallwch ffonio llinell gymorth y Cyngor Cyfreithiol Sifil yn uniongyrchol ar 0345 345 4345.

28. Am gyngor cyffredinol ar wasanaethau gwahanu a'r opsiynau ar gyfer datrys anghydfodau ewch i: www.sortingoutseparation.org.uk

29. Am gyngor cyffredinol ynglŷn â gwneud trefniadau ar gyfer plant, defnyddio cyfryngu ar ôl gwahanu, a/neu fynd i'r llys: www.advicenow.org.uk; www.advicenow.org.uk/guides/survival-guide-sorting-out-arrangements-your-children

30. Am gyngor cyffredinol ynglŷn â gwneud trefniadau ar gyfer plant: www.theparentconnection.org.uk/

31. Am gyngor cyffredinol ynglŷn â Chanolfannau Cyswllt, sy'n llefydd niwtral ble gall plant o deuluoedd sydd wedi gwahanu fwynhau cyswllt gyda'r rhiant nad ydynt yn byw â nhw ac weithiau aelodau eraill o'r teulu, mewn amgylchedd cyfforddus a diogel; ac i gael gwybodaeth ynglŷn â'r lleoliadau: www.naccc.org.uk

32. Am gymorth gyda mynd ag achos i'r llys heb gyfreithiwr, ewch i wefan Support Through Court: www.supportthroughcourt.org

33. Am arweiniad ynghylch cynrychioli eich hun yn y llys, gan gynnwys rhestr o'r termau a ddefnyddir yn aml y byddwch o bosib yn dod ar eu traws ewch i: http://www.barcouncil.org.uk/using-a-barrister/representing-yourself-in-court/

34. Am gyngor ar ddod o hyd i, a defnyddio cyfreithiwr cyfraith teulu, ewch i wefan Cymdeithas y Gyfraith: www.lawsociety.org.uk, a Resolution (cyfreithwyr cyfraith teulu): www.resolution.org.uk

35. Am gyngor ar ddod o hyd i fargyfreithiwr cyfraith teulu: gweler http://www.barcouncil.org.uk/using-a-barrister/find-a-barrister/ a'r trefniadau ar gyfer defnyddio bargyfreithiwr yn uniongyrchol ewch i: http://www.barcouncil.org.uk/using-a-barrister/how-to-instruct-a-barrister/

36. Mae dogfen Cyfarwyddyd Ymarfer sy'n nodi dull

y llysoedd o benderfynu ar drefniadau plant ar gael ar-lein yn: www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_12b

**Fideos ar-lein**

37. Mae sawl fideo yn egluro mwy am y broses gyfryngu, am wneud eich cais, beth fydd yn digwydd yn y llys, a byddant yn eich helpu i baratoi ar gyfer y gwrandawiad. I wylio'r fideos, ewch i www.bit.ly/guides_for_separating_parents